

Catchphrase 2003: Ysbyty Brynaber - Week 31

Key language

Gallwn i fod wedi etc
Hwn/hon/hwnna/honna
Hen/hoff/unig

New Words

yn enwedig	particularly
gwyb	excellent
rhyddhad	relief
hast (SW)	hurry
o'r blaen	before
cwyno	to complain
clun	hip
trueni	a pity
trefnu	to organise
peryglus	dangerous
atgoffa	to remind
o ddifri	seriously
esgus	excuse
hawdd	easy
cynnal	to maintain
cadw	to keep
cychwyn	to start
dibynadwy	dependable
braidd	rather
defnyddio	to use
dyfodol	future
amynedd	patience
bai	fault
olew	oil
sylweddoli	to realise
anobeithiol	hopeless
amlwg	obvious
camddeall	to misunderstand
egluro	to explain
syniad	idea
mil	a thousand
punnau	pounds
celwydd	a lie

Brian has escaped a jail sentence following his conviction for handling stolen goods. Jenny has indicated to Agnes that she had some important information to tell her. When pressed in the middle of the celebrations Jenny decided that the time to tell her of Wendy Keating's plot is not appropriate.

Main Grammatical Points

Gallwn i fod wedi etc

Gallwn i fod wedi gofyn	I might have asked/I could have asked
Gallet ti fod wedi dweud	You might have said/You could have said
Gallai hi fod wedi mynd	She might have gone/She could have gone
Gallai e or Gallai o fod wedi syrthio	He might have fallen/He could have fallen
Gallen ni fod wedi talu	We might have paid/We could have paid
Gallech chi fod wedi ffonio	You might have phoned /You could have phoned
Gallen nhw fod wedi prynu	They might have bought/They could have bought

And a few useful questions:

Beth allet ti fod wedi wneud?
Pryd allen nhw fod wedi gadael?
Sut allen nhw fod wedi gwybod?

What could you have done?
When could they have left?
How could they have known?

Hwn/hon/hwnna/honna

We've looked at the forms hwn, hon, hynny when they were used with nouns - for example - y bachgen hwn, y ferch hon or y ceir hynny.

These pronouns can also be used on their own.

When discussing which car Agnes would like to buy Brian asks:

Beth am hwn?	What about this (one)?	When referring to a masculine noun
Beth am hon?	What about this one (feminine)	When referring to a feminine noun

Hwn and hon refer to objects or people that are close by.

Honna refers to a feminine noun which is in fairly close proximity and likewise hwnna refers to a masculine noun in fairly close proximity

Hwnnw - that one, refers to something that is out of sight.

As Wendy says when referring to her flat down the marina:

Sut wyt ti'n meddwl dw i'n gallu fforddio hwnnw - How do you think I can afford that.

Hen/hoff/unig

As you know adjectives in Welsh come after the noun - bachgen da, merch hapus.
There are however some exceptions:

hen (old)	hen ddyn
hoff (favourite)	hoff chwaraewr
unig (only)	unig blentyn

Note however that unig when placed after the noun the meaning changes to lonely - y ferch unig - the lonely girl.

In the same way if you do happen to come across dyn hen - it means that he is really ancient!

Ysbyty Brynaber: Episode 90

Arwyn and Agnes are chatting in the hospital.

Brian meets Wendy for a celebratory drink.

Geirfa

yn enwedig	particularly
gwyb	excellent
rhyddhad	relief
hast (SW)	hurry
o'r blaen	before
cwyno	to complain
clun	hip
trefnu	to organise
trueni	a pity
peryglus	dangerous
atgoffa	to remind
o ddifri	seriously
esgus	excuse
hawdd	easy
cynnal	to maintain
cadw	to keep
cychwyn	to start
dibynadwy	dependable
braidd	rather
defnyddio	to use
dyfodol	future
amynedd	patience
bai	fault
olew	oil
sylweddoli	to realise
anobeithiol	hopeless
amlwg	obvious
camddeall	to misunderstand
egluro	to explain
syniad	idea
mil	a thousand
punnau	pounds
celwydd	a lie

Golygfa 1

Agnes - Ble wyt ti nawr 'te?...A, dw i'n gweld...Na, na...dim ond meddwl oeddwn i...achos dw i ar fin cwpl yn y gwaith nawr...Ac roeddwn i eisiau gwneud ychydig bach o siopa bwyd ar fy ffordd adre...Fyddi di adre erbyn amser swper wyt ti'n meddwl, Brei? Aros eiliad - mae' rhywun wrth y drws...dewch i mewn...

Arwyn - Sori, ydw i'n ...torri ar draws?

Agnes - Na, na...Dere mewn...Arwyn ydy e, Brian...Eistedd, Arwyn, fydda i ddim yn hir...

...Edrycha, mae'n rhaid i fi fynd nawr, Brei...Ond wyt ti nôl ar gyfer swper? Nac wyt? Beth? Ti'n mynd draw yn syth i Bwyllgor Rali AA y Sir wyt ti? Ie...Ydy, mae e'n gwneud mwy o 'sense'...O.K.

Wela i ti nes ymlaen heno 'te, ie? Hwyl, cariad...! Brian. Yffach! Mae e mor fishi drwy'r amser...!

Arwyn - Roedd newyddion wythnos diwetha yn wych....

Agnes - Oedd. Rhyddhad mawr iawn!

Arwyn - Yn enwedig o feddwl beth allai fod wedi digwydd iddo fe, ynte...?

Agnes - Ie. Yn gwmws. A sut alla i helpu?

Arwyn - Wna i ddim dy gadw di'n hir, Agnes...Eisiau gwybod os wyt ti wedi gweld Richard Allen prynhawn 'ma ydw i....

Agnes - Ddim prynhawn 'ma - naddo...Ond roedd e mewn bore 'ma...

Arwyn - Dw i'n gweld...

Agnes - A dweud y gwir wrthot ti, dw i'n credu ei fod e ar gwrs...Ond dw i ddim yn siwr chwaith...Ti eisiau i fi ffeindo mas?

Arwyn - Na, na...Does dim hast...

Agnes - Ti eisiau i fi roi neges iddo fe?

Arwyn - Eisiau gwybod pryd mae e'n rhydd wythnos nesa ydw i....

Agnes - Alla i ffeindo mas am hynny...

Arwyn - Achos licien i fynd â Richard mas i bysgota ar y cwch...

Agnes - Aethoch chi mas ar y môr o'r blaen, on'd do?

Arwyn - Do. Yn ôl ym mis Mawrth.

Agnes - Dyna fe. Dw i'n cofio nawr. Dw i'n cofio Jenny yn dweud ei bod hi wedi dod gyda chi...

Arwyn - A wnaeth hi ddim byd ond cwyno ei bod hi'n oer! Ond dim ond rhyw awr neu ddwy o bysgota gawson ni...

Agnes - Pam? Achos y tywydd?

Arwyn - Na. Ges i alwad ar y ffôn symudol...Roedd Mam wedi cwmpto yn y cartre...

Agnes - Dyna pryd wnaeth Mrs Saunders gracio'i chlun, ife?

Arwyn - Ie...A doedd dim dewis gyda fi ond troi yn ôl am yr harbwr yn syth...

Agnes - Trueni ynte?

Arwyn - Ie. Trueni mawr. Roeddwn i'n poeni'n ofnadwy am Mam...

Agnes - A sut mae Mrs Saunders erbyn hyn?

Arwyn - Yn gwella.

Agnes - Ac ydy hi gyda ti a Jenny yn y ty o hyd?

Arwyn - Nac ydy ...Aeth hi yn ôl i'r cartre... Ond licien i fynd mas i hwyllo eto... roedd hi'n flin gyda fi siomi Richard. Liciwn i drefnu rhyw sypreis bach iddo fe...Achos dw i'n gwbod ei fod e wedi joio bod mas ar y cwch...

Agnes - Pam lai? Dw i'n siwr bydd e wrth ei fodd...

Golygfa 2

Brian - Dyna ni! G + T i ti...A Guinness i fi...

Wendy - Iechyd da!

Brian - Iechyd da! Ti'n meddwl ddylet ti, Wendy?

Wendy - Ddylen i beth?

Brian - Wel...Yfed a tithau yn disgwyl...

Wendy - Wnaiff un neu ddau ddim drwg...

Brian - Ti'n siarad fel nyrs rwan?

Wendy - Ex-nurse.

Brian - Mae o'n dal yn beth peryglus i wneud ti'n gwybod...Yfed pan wyt ti'n feichiog...

Wendy - Ac mae smocio hefyd...Hyd yn oed passive smoking...Wy'n casau mwg sigarets...My father used to smoke all the time...

Brian - Ti'n trio dweud fy mod i'n dy atgoffa di o dy dad?

Wendy - Weithiau.

Brian - O ddifri?

Wendy - O ddifri beth?

Brian - Ydw i'n dy atgoffa di o dy dad?

Wendy - Certain habits...Fel smocio...That's all...

Brian - Ond o ddifri...Dw i ddim yn meddwl dylet ti yfed cymaint, ti'n gwybod...

Wendy - Dw i ddim yn yfed lot...

Brian - Dim ond dweud ydw i...

Wendy - Lay off, will you?

Brian - Iawn...Pam wyt ti mor bigog?

Wendy - What's pigog?

Brian - Prickly. You're prickly today.

Wendy - Ydw i?

Brian - Ti'n gwybod dy fod di. Ti am ddweud beth sy'n bod 'te?

Wendy - You won't leave her will you? Your beloved Agnes. Exactly. Proves my point.

Wendy - If you really love me, you'd dump her.

Brian - Wendy...Dw i yn dy garu di...

Wendy - Prove it then!

Brian - Dw i'n rhoi pob dim i ti...

Wendy - But not the thing I want most: you.

Brian - Edrycha: dw i'n aros hefo ti heno...Dw i newydd ffonio Agnes i wneud esgus...

Wendy - Ond dw i eisiau mwy na hynny, Brei!

Ysbyty Brynaber: Episode 91

Brian and Agnes are at the garage searching for a new car. Wendy Keating arrives ... and departs in a hurry.

Geirfa

hawdd	easy
cynnal	to maintain
cadw	to keep
cychwyn	to start
dibynadwy	dependable
braidd	rather
defnyddio	to use
dyfodol	future
amynedd	patience
bai	fault
olew	oil
sylweddoli	to realise
anobeithiol	hopeless
amlwg	obvious
camddeall	to misunderstand

Golygfa 1

Brian - Agnes, beth wyt ti eisiau ydy car hawdd i'w gynnal a'i gadw...
Agnes - Beth dw i eisiau ydy car sydd yn cychwyn heb ffwdan...Car dibynadwy...Car fydd yn mynd â fi o A i B heb gonco mas...
Brian - Beth am hwn? Ti'n licio fo?
Agnes - Dw i ddim yn siwr...Dw i ddim hoffi'r lliw...Na...Ddim fy lliw i o gwbl...Ych-a-fi!
Brian - Wel, mae digon o ddewis yma...Tyrd draw ffordd hyn...Beth am hwn 'te?
Agnes - Mae e braidd yn fach i fi
Brian - Dwyt ti ddim eisiau car rhy fawr wyt ti?
Agnes - Na efallai...
Brian - Mae car bach yn haws i'w barcio...A dydy o ddim yn defnyddio cymaint o betrol...
Agnes - Ond beth am y plant, Brian?
Brian - Beth amdanyn nhw?
Agnes - Does dim llawer iawn o'i le i'r ddau yn y cefn, nac oes e? Mae Rhodri yn tyfu mor gyflym nawr...A Beca hefyd...Mae'n rhaid inni feddwl am y dyfodol...
Agnes - Beth?
Brian - Dw i'n dechrau colli amynedd rwan...Ti'n gweld bai ar bob un car dw i wedi ei ddangos iti...
Agnes - Ond dw i eisiau'r car gorau i fi.....
Brian - Does dim byd yn dy blesio di yn y 'showroom' yma...
Agnes - Nac oes...
Brian - Beth am fynd allan i weld beth sydd yn fan honno?
Agnes - O'r gore...

Golygfa 2

Agnes - Car sydd ddim yn rhy fawr a char sydd ddim yn rhy fach...
Brian - Ddim yn rhy fawr a ddim yn rhy fach...O.K.
Agnes - Ie. Dyna beth fyddai'n fy siwtio i, ti ddim yn meddwl?
Brian - Beth dw i'n feddwl ti isio ydy car bach handi...Watshia!
Agnes - Beth?
Brian - Mae 'na bwl o ddwr yn fan'na...Rhag ofn i ti gerdded trwyddo fo...
Agnes - Pwll o ddwr? Pwll o ddwr a hen olew brwnt, ti'n feddwl...
Brian - Wel - dwyt ti ddim eisiau cerdded trwyddo fo... Ie. Fel roeddwn i'n dweud jest rwan, beth wyt ti eisiau ydy car bach handi i fynd a ti o gwmpas y lle...
Agnes - A beth am y siopa?
Brian - Beth am y siopa?...

Agnes - A beth am y plant? A ffrindiau'r plant?
 Brian - Dw i'n gweld dy bwynt di...
 Agnes - Brian, ti jest ddim yn sylweddoli cymaint o yrru dw i'n wneud...
 Brian - Ydw, ydw...wrth gwrs fy mod i'n sylweddoli...
 Agnes - Na, dwyt ti ddim...
 Brian - Beth am hwn? Dyma gar fasai yn dy siwtio di i'r dim. Beth wyt ti'n ddweud?
 Agnes - Dw i ddim yn siwr... Dyna'r math o gar fyddwn i'n hoffi.
 Brian - Pa un?
 Agnes - Hwnna.
 Brian - Ble?
 Agnes - Y car bach glas golau yna ar bwys y pwmp petrol...Dere inni fynd i'w weld e...
 Brian - Na, na - dwyt ti ddim eisiau car fel hwnnw siwr iawn!
 Agnes - Dw i'n meddwl byddai hwn yn grêt...Edrycha faint o le sydd yn y cefn...
 Brian - Na, na. Car anobeithiol ydy hwn...
 Agnes - Pam wyt ti'n dweud hynny?
 Brian - Faswn i byth yn ei werthu fo i neb.
 Agnes - Ond rwyt ti wedi ei werthu e, mae'n amlwg...
 Brian - Sut wyt ti'n gwybod?
 Agnes - Mae sticer y garej ar y ffenest ôl fan hyn...Edrycha 'Moduron Brian Rees...'
 Brian - Dw i ddim yn cofio ei werthu fo...
 Agnes - Ddim yn cofio ei werthu fe?
 Brian - Mae'n siwr mai un o'r bois eraill wnaeth...
 Agnes - O, yffach! Edrycha pwy sy'n dod yma.
 Brian - Gad inni fynd nôl at y ceir eraill...
 Wendy - Wel, Wel! Sister Rees...
 Agnes - Wendy. Sut mae pethau?
 Brian - Agnes, dere inni fynd draw i fan'cw...
 Wendy - Wedi galw am betrol wyt ti hefyd?
 Agnes - Na. Mae Brian a fi yn trio dewis car...
 Wendy - Ydych chi nawr?
 Agnes - Ond dw i ddim yn siwr pa un i gael eto...
 Wendy - Ychydig bach o pick and mix, ie?
 Brian - Agnes - dere nawr...
 Agnes - Dw i'n hoffi eich car chi, Wendy.
 Wendy - Wyt ti nawr?
 Agnes - Dw i'n credu ei fod e'n neis iawn...
 Wendy - Wel, Mr Rees fan hyn wnaeth ei...Well, he recommended it to me...
 Agnes - Dyna beth od. Ddwedaist ti dy fod ti ddim yn cofio'i werthu fe, Brian...
 Brian - Ddweudais i mo hynny..
 Agnes - Do. Dyna beth ddwedaist ti..
 Brian - Na, rwyt ti wedi camddeall...
 Wendy - Anyway, well i fi fynd...
 Agnes - Brian? Beth sy'n bod arnat ti?
 Brian - Dim. Dim. Tyrd. Awn ni i ffeindio car iti...

Ysbyty Brynaber: Episode 92

Wendy finally catches up with Agnes Rees and tells her all about her affair with Brian.

Agnes refuses to believe her

Geirfa

egluro	to explain
syniad	idea
mil	a thousand
punnau	pounds
celwydd	a lie

Golygfa 1

Agnes - Drat!

Wendy - I'll pick them up...Dyna ti.

Agnes - Wendy, beth ydych chi'n wneud fan hyn?

Wendy - Dw i wedi bod yn disgwyl amdanat ti...

Agnes - Disgwyl?

Wendy - Ie. Disgwyl.

Agnes - Ble mae'r car 'te?

Wendy - Parked around the back...

Agnes - Beth ydych chi eisiau?

Wendy - 'Chat'.

Agnes - 'Chat'?

Wendy - Ie. A long, very long overdue chat.

Agnes - Am beth? Y Panel Disgyblu...?

Wendy - Na, na... That's hen hanes. That's history.

Agnes - Beth 'te?

Wendy - Chat am rywbeth arall...rhywbeth lot mwy personol. Fyddai hi'n haws yn y ty...

Wendy - Look: don't stare at me like that...I'm here to help you understand your life better...

Agnes - Dw i ddim eisiau i chi ddod mewn i'r ty

Wendy - Fyddai hi'n haws siarad yn y ty.

Agnes - Dwedwch beth rydych chi eisiau ei ddweud. Ond dwedwch e mas fan hyn, Wendy - a wedyn ewch i ffwrdd.

Wendy - Roeddwn i wedi meddwl gweud wrthot ti cyn hyn...Ond doeddwn i byth yn siwr iawn pryd i'w ddweud e...

Agnes - Dweud beth?

Wendy - Ti'n gweld...Na, wrth gwrs. Ti ddim yn gweld wyt ti? That's part of the problem...part of your problem, Agnes...

Agnes - Dydych chi ddim yn gwneud unrhyw 'sense'.

Wendy - Ti eisiau i fi wneud 'sense'?

Agnes - Siarad 'sense' neu fynd i ffwrdd.

Wendy - O.K. Number 1. Let's do this really rationally and methodically, as you used to say to us trainee nurses...Let's be really methodical and rational here, girls...So...Dere i ni weld...

Wendy - Beth am fynd i weld fy nghar i?

Agnes - Pam?

Wendy - Fyddai hi'n haws i fi egluro wrth y car. Ti'n dod 'te? Paid â bod ofn...

Wendy - Neis, on'd ydy e?

Agnes - Ydy. Mae e...

Wendy - Ti eisiau test drive?

Agnes - Dim diolch.

Wendy - Roiodd Brian test drive i fi. Mas i'r wlad. Dyna ble aethon ni.

Wendy - Mas i'r wlad ac yn ôl i'r dre. Wyt ti eisiau test drive mas i'r wlad a...wel, nôl i fan hyn?

Agnes - Beth ydych chi'n feddwl?

Wendy - Faint ti'n meddwl gostiodd y car yma i fi?

Agnes - Dim syniad.

Wendy - Mentra guess.

Agnes - Does dim syniad gyda fi.
 Wendy - Rhaid bod rhyw syniad gyda ti...Come on, Agnes...Guess.
 Wendy - Faint wyt ti'n meddwl gostiodd y car yma i fi?
 Agnes - Tair mil o bunnau.
 Wendy - ...Tria 'to.
 Agnes - Does dim syniad gyda fi.
 Wendy - Tair mil? You're way off.
 Agnes - Dwy fil 'te.
 Wendy - Tria eto.
 Agnes - Mil.
 Wendy - And again.
 Agnes - Pum cant?
 Wendy - Seriously?
 Agnes - Dau gant, cant - dw i ddim yn gwybod!
 Wendy - Dim! Dim un geiniog.
 Agnes - Sut?
 Wendy - Sut wyt ti'n meddwl?
 Agnes - Part-exchange ie?
 Wendy - Ie. But not for another car... Dwyt ti ddim yn fy nghredu i?
 Agnes - Nac ydw.
 Wendy - Beth? Ddim yn credu na fyddai Brian ti yn gwneud hynny?
 Agnes - Byth. Fyddai Brian byth yn gwneud rhywbeth fel hynny.
 Wendy - Na fyddai e?
 Agnes - Na fyddai.
 Wendy - Pam ddim?
 Agnes - Achos fy mod i'n ei nabod e ers pymtheg mlynedd.
 Wendy - O.K. Beth am y fflat sydd gyda fi lawr yn y Marina? Sut ti'n meddwl dw i'n gallu fforddio hwnnw?
 Wendy - Pwy sy'n talu hanner y morgej ar y ty 'ma? Ti, ie? Ond beth am y stash o arian sydd gyda Brian mewn off-shore accounts? Wyt ti'n gwbod amdany'n nhw?
 Agnes - Celwydd yw hyn! Celwydd!
 Wendy - Celwydd? It's time you opened your eyes. And it's also high time that you finally grew up, you stupid arrogant bitch.

Synopsis

Wendy has finally caught up with Agnes Rees and told her of Brian Rees' kindness towards her. Agnes still refused to believe that Brian would do such a thing.

Test yourself

1. What is the Welsh for 'You could have said'?
 - a) **Gallet ti fod wedi dweud**
 - b) Dylet ti fod wedi dweud
 - c) Byddet ti wedi gallu mynd
2. How would you translate 'only child' into Welsh?
 - a) Plentyn yn unig
 - b) Plentyn unig
 - c) **Unig blentyn**
3. What is the word in Welsh for 'to organise'?
 - a) trueni
 - b) troi
 - c) **trefnu**
4. What's the Welsh for 'What about that one (feminine)'?
 - a) Beth am hwnnw?
 - b) Beth am hwn?
 - c) **Beth am honna?**
5. How would you ask 'What's this (masculine)' in Welsh?
 - a) **Beth yw hwn?**
 - b) Beth yw hwnna?
 - c) Beth yw hwnnw?
6. What is the Welsh for 'my favourite colour'?
 - a) Fy lliw hoff
 - b) **Fy hoff liw**
 - c) Fy hoff lliw